# Mae nifer o sefydliadau'r GIG fel ysbytai, meddygfeydd teulu, deintyddion, optegwyr a fferyllwyr cymunedol yn darparu gwasanaethau gofal iechyd

GIG CYMRU NHS WALES




**Nod y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yw darparu gofal o'r ansawdd gorau.** I gyflawni hynny, rhaid iddynt gadw cofnod o'ch gofal iechyd ac unrhyw driniaeth mae'n nhw'n ei darparu i chi.

**Maen nhw'n cymryd y cyfrifoldeb o ofalu am eich gwybodaeth yn ddifrifol iawn.** Mae gan staff y GIG yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i gadw eich gwybodaeth yn gyfrinachol, yn gywir ac yn ddiogel ar bob adeg, ac maen nhw wedi'u hyfforddi i drin eich gwybodaeth yn gywir ac i warchod eich preifatrwydd.

**Mae'n bosibl y bydd angen rhannu eich gwybodaeth gyda phobl a sefydliadau sy'n rhan o'r GIG ac sy'n gyfrifol am ddarparu triniaeth a gofal i chi.** Er enghraifft, gallai eich deintydd rannu eich gwybodaeth gydag ymgynghorydd mewn ysbyty er mwyn iddynt ddarparu triniaeth bellach i chi, neu efallai bydd fferyllydd ysbyty'n cael mynediad at eich cofnodion meddyg teulu er mwyn adolygu eich meddyginiaeth bresennol. Mae'r uchod yn sicrhau bod cleifion yn cael y triniaethau mwyaf addas, cyfredol a chost-effeithiol.

Weithiau, bydd angen i aelodau tîm gofal, sy'n gallu cynnwys pobl o sefydliadau gofal iechyd neu ofal cymdeithasol, rannu eich gwybodaeth gyda gweddill y tîm er mwyn darparu eich gofal.

Mae'n bosibl y bydd yna achlysuron pan fydd angen i ni ddefnyddio neu rannu eich gwybodaeth er mwyn cynllunio ein gwasanaethau i gleifion a gwirio pa mor effeithiol yw ein harferion pan fyddwn yn darparu eich triniaeth a gofal.

**Byddwn yn rhannu'r lleiafswm o wybodaeth sydd ei angen ar unrhyw adeg yn unig, yn unol â'r gyfraith. Ni fyddwn yn gwerthu eich gwybodaeth bersonol o dan unrhyw amgylchiadau.**

Mae taflenni ar gael sy'n rhoi mwy o fanylion i chi am y ffordd rydym yn rheoli eich gwybodaeth a'ch hawliau chi mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi.

**Gofynnwch i aelod staff am gopi neu ewch i wefan NHS Direct Cymru:**
**www.nhsdirect.wales.nhs.uk/lifestylewellbeing/yourinfoyourrights**